



Awduron ac adolygwyr Cymwysterau a Deunydd Asesu Enghreifftiol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 3 newydd.

Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am awduron ac adolygwyr arloesol i ehangu ein tîm i gefnogi datblygiad cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 newydd mewn:

- **Busnes**
- **Peirianeg**
- **Chwaraeon**
- **Twristiaeth**

Mae ein cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 newydd yn cael eu datblygu'n bennaf:

- i'w defnyddio gyda dysgwyr 16-19 oed yn rhan o raglen astudio ôl-16/chweched dosbarth
- i gefnogi dilyniant i addysg uwch
- i alluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o faes galwedigaethol ar Lefel 3 gyda chyfluoedd i feithrin sgiliau ymarferol a thechnegol cysylltiedig
- i ategu'r cymwysterau eraill yn eu plith y TAG, y Fagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch newydd a chymwysterau galwedigaethol eraill ar Lefel 3.

Mae **awduron ac adolygwyr cymwysterau** yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu ein cymwysterau. Yn y rôl hon, gofynnir i chi wneud rhai neu bob un o'r canlynol:

- llunio cynnwys y fanyleb ynghyd â sail resymegol dros yr hyn sydd wedi'i gynnwys sy'n bodloni gofynion y cymhwyster
- llunio cynnwys asesu (tasgau a chynlluniau marcio) sy'n bodloni gofynion manyleb cymhwyster ac asesiad
- adolygu cynnwys manyleb/asesiad (papurau cwestiynau/tasgau a chynlluniau marcio) i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion manyleb cymhwyster ac asesiad
- cyflwyno cynnwys asesu yn y fformat gofynnol, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt
- sicrhau bod y cynnwys asesu yn bodloni'r holl gyfarwyddiadau comisiynu, yn unol â'r hyn a gytunwyd â'r swyddog datblygu cymwysterau
- darparu cynnwys asesu ychwanegol yn ôl y gofyn, gan gynnwys ffynonellau dogfennau/delweddau a manylion caniatâd hawlfraint.
- mynychu diwrnodau panel adolygu papurau a sesiynau hyfforddi, yn ôl y gofyn (a fydd yn cael eu cynnal ar-lein ar Microsoft Teams).

Profiad/cymwysterau angenrheidiol

- profiad addysgu a/neu proffesiynol yn y maes sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o gymwysterau galwedigaethol
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da, yn enwedig yn eich sector/meysydd pwnc o ddewis
- gallu defnyddio TGCh yn hyderus

- y gallu i ddysgu sgiliau newydd yn gyflym a'u cymhwyso
- y gallu i weithio i derfynau amser tynn
- gallu ysgrifennu'n glir ac yn gryno.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â qualifications@wjec.co.uk. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **17 Mehefin 2022**.

Sut i wneud cais:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, ewch i <https://appointees.wjec.co.uk/> a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu rôl **Datblygwr Manylebau** ar gyfer **Busnes, Peirianeg, Twristiaeth a Chwaraeon, Lefel 3** ar y tab 'maes pwnc' ac yn llenwi pob maes arall yn y cais. **Mae'n bwysig eich bod yn diweddarau eich Datganiad Cefnogi ar y cais.**

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:

Rob Reynolds

✉ rob.reynolds@wjec.co.uk

☎ 029 20265050